**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**

**Pwyntiau Gweithredu**

| **Sesiwn Gwrandawiad 3 – Dosbarthiad Gofodol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S3/PG1 | Cyffredinol | Golygu'r Cynllun i sicrhau bod effaith unrhyw Newid Materion sy'n Codi yn cael ei adlewyrchu ym mhob rhan berthnasol o'r Cynllun, e.e. dileu pob cyfeiriad at 'hyd at' 55% o ran y canran twf yn y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol. | Erbyn 1 wythnos cyn y Gwrandawiad olaf |
| S3/PG2 | Polisi TAI 17 | Egluro'r hyn a olygir ym maen prawf (i) o safbwynt bodloni angen y gymuned am dai. Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i sicrhau bod geiriad y Polisi yn cyfleu ei bwrpas yn glir yn hytrach na dibynnu ar yr eglurhad. | Erbyn 30/9 |
| S3/PG3 | Polisi TAI 17 – Tabl 20 | Esboniad o ran pam fod lefel twf ar hap ym mhentrefi Ynys Môn yn gyson uwch na lefelau yng Ngwynedd. | Erbyn 30/9 |
| S3/PG4 | Darparu cyfleoedd ar hap | Paratoi papur sy'n mynegi sut mae'r Cynllun yn darparu cyfleoedd ar hap o fewn aneddleoedd gwledig a threfol i gwrdd â'r twf dangosol a'i hadnabyddir. Dylid darparu esiamplau penodol o aneddleoedd wrth wneud hyn, gan ddangos ffiniau datblygu o gynlluniau presennol ac egluro unrhyw achosion eithriadol ("anomaly"). Dylid rhoi esboniad o'r ffigwr hap, sy'n ymddangos yn uchel. | Erbyn 30/9 |

DRAFT

| Sesiwn Gwrandawiad 3 – Dosbarthiad Gofodol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S3/PG5 | Cyswllt rhwng Papur Testun 5A a'r dynodiadau tai | Cyfeiriwyd at enghreifftiau o aneddleoedd lle ymddengys nad ydi'r lefel twf tai a gyfeirir i rai aneddleoedd yn cydweddu gyda'r sgôr a roddir i aneddleoedd ym Mhapur Testun 5A, e.e. llai o dai wedi eu cyfeirio i Gaernarfon nag yn Amlwch er ei fod yn cael sgôr uwch. Paratoi papur i roi manylion y ffactorau a roddwyd ystyriaeth iddynt i benderfynu sut i ddosbarthu'r lefel twf tai. | Erbyn 30/9 |
| S3/PG6 | Polisi TAI 18 - Clystyrau | (Gweler pwynt gweithredu S1/PG2) Ailystyried Polisi TAI 18 a chyflwyno Newid Materion sy'n Codi er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well gyda gofynion Polisi Cynllunio Cymru, gan roi sylw penodol i baragraff 4.7.7 o Bolisi Cynllunio Cymru. | Erbyn 7/10 |
| S3/PG7 | Polisi PS 15 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i sicrhau bod y dosbarthiad tai fesul haen ym Mholisi PS 15 yn gyson gyda'r wybodaeth ym Mhapur Testun 20A a gwneud unrhyw newidiadau cysylltiol angenrheidiol i eirfa mewn rhannau eraill o'r Cynllun i sicrhau cysondeb mewnol. | Erbyn 14/10 |
| S3/PG8 | Lefel twf ar hap newydd | Diwygio gwybodaeth yn nhablau 1-13 yn Natganiad y Cynghorau i Sesiwn Gwrandawiad 3 i sicrhau gwell eglurder o ran unrhyw ffigyrau anarferol a'u nodir o ran lefelau twf disgwyliedig o safleoedd ar hap newydd e.e. y ffigwr negyddol yn Y Felinheli. | Erbyn 30/9 |

DRAFT